

Rhif: WG33358



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Canllawiau Statudol i Awdurdodau Lleol: Strategaethau Toiledau Lleol

Rhan 8 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017: Darparu Toiledau –
Strategaethau Toiledau Lleol

Dyddiad cyhoeddi: 10 Ionawr 2018
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 4 Ebrill 2018

Trosolwg	<p>Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn am y Canllawiau Statudol drafft i awdurdodau lleol ynghylch y dyletswyddau a'r pwerau a gyflwynwyd dan Ran 8 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017. Mae'r Ddeddf hon yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i lunio a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol ar gyfer eu hardal.</p>
Sut i ymateb	<p>Rhaid i bawb sy'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn lenwi'r holiadur amgaeedig sydd hefyd ar gael fel dogfen y gellir ei lawrlwytho yma:</p> <p>https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/strategaethau-toiledau-lleol-canllawiau-statudol-ar-gyfer-awdurdodau-lleol</p> <p>Dylid anfon ymatebion i'r cyfeiriadau canlynol:</p> <p>Ebost: LocalToiletsStrategy@gov.wales</p> <p>Post: Polisi a Deddfwriaeth Diogelu Iechyd Is-adran Iechyd y Cyhoedd Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ</p>
Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig	<p>Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille ac mewn ieithoedd eraill.</p> <p>Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017: http://www.legislation.gov.uk/anaw/2017/2/contents</p> <p>Canllawiau statudol drafft i awdurdodau lleol a dogfen ar wahân sy'n cynnwys canllawiau technegol: https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/strategaethau-toiledau-lleol-canllawiau-statudol-ar-gyfer-awdurdodau-lleol</p> <p>Mae'r ddogfen ymgynghori hon ar gael ar-lein hefyd: https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/strategaethau-toiledau-lleol-canllawiau-statudol-ar-gyfer-awdurdodau-lleol</p>
Manylion cyswllt	<p>I gael rhagor o wybodaeth:</p> <p>Polisi a Deddfwriaeth Diogelu Iechyd Is-adran Iechyd y Cyhoedd Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ</p> <p>Ebost: LocalToiletsStrategy@gov.wales</p> <p>Ffôn: 03000 253240</p>

Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r sylwadau a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth nad yw wedi'i chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, efallai y bydd rhesymau pwysig weithiau dros ddatgelu enw a chyfeiriad rhywun, er ei fod wedi nodi nad yw eisiau i'r manylion hyn gael eu cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cynnwys

	Tudalen
Rhagair gan y Gweinidog	2
Crynodeb gweithredol	3
Cefndir yr ymgynghoriad hwn	3
Y Canllawiau Statudol ynghylch Strategaethau Toiledau Lleol	4
Y cwestiynau yr hoffem eu gofyn i chi	6
Beth fydd yn digwydd nesaf	8
Atodiad A – Rhestr ddsbarthu'r ymgynghoriad	9
Atodiad B – Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad	11

Rhagair gan y Gweinidog


Mae sicrhau mynediad i doiledau at ddefnydd y cyhoedd yn fater sy'n effeithio ar iechyd pobl, eu hurddas ac ansawdd eu bywyd. Mae methu â darparu cyfleusterau toiledau digonol yn esgor ar gostau amgylcheddol a chostau o ran iechyd y cyhoedd i'r gymuned ehangach. Mae toiledau hygyrch a glân sydd mewn mannau da mewn lleoedd megis parciau, promenadau, llwybrau beicio a llwybrau cerdded yn helpu i annog pobl, y gallai fod angen iddynt gael mynediad rheolaidd i doiledau, i wneud ymarfer corff a pharhau i wneud mwy o weithgarwch corfforol. Gallant hefyd helpu i annog pobl i gefnu ar eu ceir ac aildechrau defnyddio dulliau mwy cynaliadwy o deithio.

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn cynnwys darpariaethau y bwriedir iddynt wella'r modd y caiff toiledau at ddefnydd y cyhoedd eu cynllunio a'u darparu. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i lunio a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol ar gyfer eu hardal. Rhaid i'r strategaeth honno gynnwys asesiad o angen y gymuned am doiledau, gan gynnwys cyfleusterau newid ar gyfer babanod a mannau newid ar gyfer pobl anabl, yn ogystal â manylion ynghylch sut y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu diwallu'r angen hwnnw.

Ni fydd y ddyletswydd i lunio strategaeth toiledau lleol yn golygu ynddi ei hun bod yn rhaid i awdurdodau lleol ddarparu a chynnal toiledau cyhoeddus yn uniongyrchol, ond bydd yn mynnu eu bod yn ystyried yn strategol sut y gellir darparu'r cyfleusterau hyn ar draws eu hawdurdod a sut y gall eu poblogaeth leol gael mynediad iddynt. Er y caiff toiledau cyhoeddus eu hystyried yn aml yn gyfleusterau annibynnol, ceir ystod eang o gyfleusterau yn adeiladau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat hefyd, a allai fod ar gael i'r cyhoedd ac a allai gael eu defnyddio'n ehangach drwy feddwl yn greadigol a gweithio mewn partneriaeth. Fel llywodraeth rydym yn ymwybodol o'r pwysau ariannol sy'n wynebu awdurdodau lleol yng Nghymru, a thrwy strategaethau toiledau lleol felly rydym yn ceisio annog awdurdodau lleol i wella gwaith cynllunio, gwneud defnydd gwell o gyfleusterau presennol a dod o hyd i atebion creadigol yn hytrach nag adeiladu cyfleusterau newydd, drud.

Dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru roi canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch sut y dylent lunio eu strategaethau toiledau lleol, ymgynghori yn eu cylch a'u cyhoeddi, a rhoi canllawiau ynghylch y materion y dylent fod yn eu hystyried wrth ymgymryd â'r tasgau hynny.

Prif ddiben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn am y Canllawiau Statudol drafft i awdurdodau lleol ynghylch Strategaethau Toiledau Lleol. Rydym am sicrhau bod y canllawiau'n addas i'w diben a'u bod yn cynorthwyo awdurdodau lleol i ddarparu manteision i'r gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd, gan gyfrannu felly at gyflawni holl nodau llesiant Cymru. Rwy'n gwerthfawrogi eich barn a hoffwn eich annog i'w mynegi; edrychaf ymlaen at glywed beth sydd gennych i'w ddweud am y mater pwysig hwn. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 4 Ebrill, ac yna byddwn yn myfyrio ynghylch yr adborth cyn penderfynu ar y dull gweithredu a gaiff ei ffafrio. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad yn nes ymlaen yn 2018.



Vaughan Gething AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Crynodeb gweithredol

- Dan Ran 8 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru lunio a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol ar gyfer eu hardal.
- Yn ogystal mae'r Ddeddf yn mynnu bod Gweinidogion Cymru yn rhoi canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch sut y dylent ymgymryd â'r ddyletswydd hon a pha faterion y dylent eu hystyried wrth lunio eu strategaethau toiledau lleol.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio fersiwn ddrafft o'r canllawiau i awdurdodau lleol, a hoffai'n awr ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch cynnwys y canllawiau.
- Mae'r ddogfen hon yn nodi manylion yr ymgynghoriad ac yn gofyn nifer o gwestiynau am y canllawiau drafft. Hoffai Llywodraeth Cymru pe bai aelodau'r cyhoedd yn ymateb i'r cwestiynau dan sylw er mwyn rhoi eu barn, ac mae ffurflen ymateb wedi'i darparu.
- Pan fydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben byddwn yn ystyried yr ymatebion a gafwyd, gyda'r bwriad o ddiwygio'r canllawiau drafft er mwyn sicrhau eu bod mor ddefnyddiol ag sy'n bosibl i awdurdodau lleol.
- Yna byddwn yn cyhoeddi'r canllawiau terfynol ac yn eu rhoi i awdurdodau lleol. Pan fydd y canllawiau wedi'u rhoi bydd yn rhaid i awdurdodau lleol roi sylw iddynt wrth gyflawni'r gwaith sy'n ymwneud â llunio a chyhoeddi eu strategaethau toiledau lleol.

Cefndir yr ymgynghoriad hwn

Mae rhanddeiliaid, ac adroddiadau a luniwyd gan fudiadau megis Help the Aged a chan Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad Cenedlaethol, wedi nodi'n gyson bod darpariaeth wael o ran toiledau'n fater pwysig ym maes iechyd y cyhoedd.

Cydnabyddir bod awdurdodau lleol yn ei chael yn fwyfwy anodd ariannu'r gwaith o ddarparu toiledau cyhoeddus traddodiadol, oherwydd y pwysau cynyddol ar gyllidebau sy'n crebachu. Er bod awdurdodau lleol wedi darparu toiledau cyhoeddus yn y gorffennol, nid yw'r gyfraith yn mynnu eu bod yn gwneud hynny. Fodd bynnag, mae'r angen yn parhau ymhlith aelodau'r cyhoedd i gael mynediad i doiledau y tu allan i'w cartrefi.

Ym mis Tachwedd 2013 cafwyd trafodaeth mewn cyfarfod llawn o'r Cynulliad ynghylch darparu toiledau cyhoeddus. Cydnabuwyd y dylai darparu toiledau cyhoeddus barhau'n flaenoriaeth, a bod cynnwys darpariaethau mewn deddfwriaeth yn ffordd bosibl o sicrhau hynny.

Amlinellodd yr ymgynghoriad Papur Gwyn a gynhaliwyd yn 2014 ynghylch Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), '*Gwranddo arnoch chi: Mae eich iechyd yn bwysig*', gyfres o gynigion deddfwriaethol ymarferol a blaengar a oedd yn cynnwys cynnig i osod dyletswydd ar bob awdurdod lleol i ddatblygu strategaeth ynghylch darparu toiledau at ddefnydd y cyhoedd yn eu hardal a sicrhau mynediad iddynt. Roedd y cynnig wedi'i ddatblygu'n bwrpasol i ymdrin ag ystod ehangach o gyfleusterau a allai fod ar gael i'r cyhoedd, yn hytrach nag ymdrin â chyfleusterau toiledau cyhoeddus traddodiadol yn unig.

Cafodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ('y Ddeddf') Gydsyniad Brenhinol ar 3 Gorffennaf 2017. Mae'r Ddeddf yn dod ag ystod o gamau gweithredu ymarferol ynghyd ar gyfer gwella a diogelu iechyd ar draws ystod o feysydd. Mae Rhan 8 y Ddeddf yn ymdrin â'r gwaith o ddarparu toiledau ac mae'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddatblygu strategaethau toiledau lleol.

Mae gofynion Rhan 8 y Ddeddf yn cydnabod yr egwyddor bod angen i'r cyhoedd gael mynediad i doiledau y tu allan i'w cartrefi, a'r egwyddor bod cyfleusterau toiledau presennol sy'n eiddo cyhoeddus neu'n eiddo preifat ar gael a allai ac a ddylai fod at ddefnydd y cyhoedd yn ehangach, yn ogystal â'r toiledau cyhoeddus a ddarperir gan awdurdodau lleol. Felly, mae a wnelo strategaethau toiledau lleol ag annog awdurdodau lleol i wneud y defnydd gorau o'r cyfleusterau sy'n bodoli eisoes a mynd ar drywydd partneriaethau creadigol er mwyn annog yr arfer o agor toiledau nad yw aelodau'r cyhoedd efallai'n ymwybodol ohonynt neu y maent efallai'n teimlo bod yn rhaid iddynt fod yn gwsmer i'w defnyddio. Nid yw'r Ddeddf yn mynnu'n benodol bod awdurdodau lleol yn darparu ac yn cynnal toiledau cyhoeddus traddodiadol.

Wrth i'r Ddeddf fynd drwy'r Cynulliad Cenedlaethol, addawodd Gweinidogion Cymru y byddai rhanddeiliaid allweddol yn cael eu gwahodd i gynorthwyo i ddrafftio'r Canllawiau Statudol. Felly, cafodd cynrychiolwyr y cyrff a roddodd dystiolaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol ynghylch darparu toiledau, yn ystod y cyfnod o fynd gerbron Pwyllgor, eu gwahodd gan swyddogion Llywodraeth Cymru i roi sylwadau ar fersiwn ddrafft y Canllawiau Statudol, yn ogystal â chynrychiolwyr awdurdodau lleol. Roedd y sefydliadau canlynol yn rhan o'r ymarfer hwnnw:

- Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd Byrddau Iechyd Lleol Cymru;
- Y Gymdeithas Clefyd Crohn a Cholitis;
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru;
- Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (Cymru);
- Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd (Cymru);
- Coleg Brenhinol y Meddygon (Cymru);
- Y Gymdeithas Feddygol Brydeinig (Cymru);
- Cymdeithas Toiledau Prydain;
- Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru (yn Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru);
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
- Cynrychiolwyr awdurdodau lleol yng Nghymru.

Y Canllawiau Statudol ynghylch Strategaethau Toiledau Lleol

Mae adran 113(7) y Ddeddf yn mynnu bod Gweinidogion Cymru yn rhoi canllawiau i awdurdodau lleol. Mae'r Ddeddf yn nodi nifer o faterion gwahanol y mae'n rhaid ymdrin â nhw yn y canllawiau hyn er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol i gydymffurfio â'r dyletswyddau sydd yn Rhan 8. Bydd y canllawiau statudol hyn yn cael eu rhoi dan adrannau 113 (7) a 114(5) y Ddeddf, a rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru roi sylw iddynt.

Mae dogfen y canllawiau strategol drafft wedi'i bwriadu ar gyfer awdurdodau lleol ac mae'n trafod ystod o faterion technegol a strategol y dylai awdurdodau lleol eu hystyried wrth lunio ac adolygu strategaeth toiledau lleol, ymgynghori yn ei chylch neu'i chyhoeddi, ac wrth lunio datganiadau interim. Y nod yw sicrhau bod pob awdurdod lleol yn defnyddio'r canllawiau i'w cynorthwyo i ddilyn yr egwyddorion sy'n ymwneud â chynllunio'n strategol a chynllunio ar

gyfer yr hirdymor, ymgysylltu â'u poblogaethau er mwyn datblygu atebion creadigol a chynaliadwy ar gyfer darparu toiledau hygrych i'r cyhoedd, a gweithredu'n ystyriol ac yn dryloyw er mwyn diwallu'r angen hwnnw yn y ffordd orau posibl.

Rydym wedi llunio dogfen y Canllawiau Statudol drafft yn unol â'r pum ffordd o weithio y dylai cyrff cyhoeddus eu dilyn wrth gyflawni gweithgareddau datblygu cynaliadwy dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae rhagor o wybodaeth am hynny wedi'i chynnwys yn y ddogfen ei hun.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi dogfen Canllawiau Technegol ychwanegol ynghylch mapio toiledau yng Nghymru, gyda'r bwriad o ddarparu map toiledau ar gyfer Cymru gyfan gan ddefnyddio data awdurdodau lleol. Nid yw'r ddogfen hon yn rhan o'r canllawiau statudol ac rydym wedi'i chyhoeddi er mwyn dangos y bwriad i gyflawni'r gwaith mapio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac er mwyn dangos y wybodaeth a fydd yn cael ei chasglu. Mae awdurdodau lleol wedi rhoi sylwadau eisoes ar y ddogfen Canllawiau Technegol.

Mae'r Canllawiau Statudol drafft a'r Canllawiau Technegol i'w gweld ar dudalen ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru yma:

<https://ymgynghoriadau.llyw.cymru/ymgynghoriadau/strategaethau-toiledau-lleol-canllawiau-statudol-ar-gyfer-awdurdodau-lleol>

Dylid darllen y Canllawiau Statudol drafft ochr yn ochr â Rhan 8 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, sydd i'w gweld drwy ddilyn y ddolen gyswllt hon:

<http://www.legislation.gov.uk/anaw/2017/2/contents>

Y cwestiynau yr hoffem eu gofyn i chi

Bwriedir i'r Canllawiau Statudol drafft gael eu defnyddio'n bennaf gan awdurdodau lleol wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau dan y Ddeddf. Gan mai awdurdodau lleol fydd yn arwain y gwaith o lunio strategaethau toiledau lleol, byddem yn hoffi cael ymatebion gan eu cynrychiolwyr nhw'n benodol.

Fodd bynnag, diben y strategaethau toiledau lleol yw mabwysiadu dull strategol o ddarparu toiledau cyhoeddus a gwneud y defnydd gorau o adnoddau presennol. Ond nid awdurdodau lleol yn unig sydd â rheolaeth dros yr atebion i sicrhau darpariaeth well o ran toiledau cyhoeddus, ac oherwydd hynny bydd yn hanfodol cydweithio ag eraill. Felly ceir goblygiadau i sefydliadau/mudiadau eraill ac i fusnesau, yn ogystal â grwpiau cynrychiadol ac aelodau'r cyhoedd, sef defnyddwyr unrhyw gyfleusterau toiledau a glustnodir. Felly byddem yn hoffi ymgysylltu mor eang ag sy'n bosibl a byddem yn annog unrhyw un sydd â buddiant yn y ddarpariaeth o doiledau at ddefnydd y cyhoedd i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Mae'r cwestiynau canlynol yn gofyn am eich barn am wahanol agweddau ar y Canllawiau Statudol drafft ac yn gofyn a allai'r canllawiau gael eu diwygio mewn unrhyw ffordd er mwyn gwella eu heglurder neu'u cynnwys. Rydym yn eich gwahodd i gyflwyno eich ymatebion i ni ar y ffurflen sydd wedi'i darparu yng nghefn y ddogfen hon. Gellir llenwi'r ffurflen ar bapur a'i hanfon atom drwy'r post, neu gellir ei lawrlwytho o'r dudalen ar y we ar gyfer yr ymgynghoriad hwn a'i hanfon atom drwy ebost:

<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/strategaethau-toiledau-lleol-canllawiau-statudol-ar-gyfer-awdurdodau-lleol>

NODER: Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi penderfynu a chytuno ar ofynion Rhan 8 y Ddeddf ac maent bellach yn gyfraith. Felly ni all yr ymgynghoriad hwn ailystyried y gofyniad y dylai pob awdurdod lleol lunio strategaeth toiledau lleol; beth y dylai'r strategaeth ei gynnwys, fel y nodwyd ar wyneb y Ddeddf; na'r amserlen statudol ar ei chyfer.

Cwestiwn 1: A yw'r broses ar gyfer ymgynghori ynghylch strategaeth toiledau lleol, ei llunio, ei chyhoeddi a'i hadolygu yn glir?

Cwestiwn 2: A oes digon o ganllawiau ynghylch ystyried y tymor hwy er mwyn canolbwyntio ar ddod o hyd i atebion cynaliadwy?

Cwestiwn 3: A oes digon o ganllawiau ynghylch integreiddio er mwyn ei gwneud yn bosibl i doiledau at ddefnydd y cyhoedd gael eu prif ffrydio mewn polisïau lleol ehangach?

Cwestiwn 4: A oes digon o ganllawiau ynghylch cynnwys pobl er mwyn ei gwneud yn bosibl i anghenion y boblogaeth leol ac ymwelwyr gael eu hasesu'n briodol?

Cwestiwn 5: A oes digon o ganllawiau ynghylch cydweithio er mwyn ei gwneud yn bosibl gweithio mewn partneriaeth ac annog atebion cyffredin?

Cwestiwn 6: A oes digon o ganllawiau ynghylch atal er mwyn galluogi strategaethau toiledau lleol i ganolbwyntio ar atal problemau rhag digwydd neu waethygu?

Cwestiwn 7: A oes unrhyw fylchau sylweddol yn y canllawiau drafft presennol?

Cwestiwn 8: A yw dyluniad y logo cenedlaethol ar gyfer toiledau'n addas i'w ddiben?

Cwestiwn 9: Hoffem gael gwybod beth yw eich barn am effeithiau posibl y ddogfen *Canllawiau Statudol ynghylch Darparu Toiledau yng Nghymru: Strategaeth Toiledau Lleol* ar y Gymraeg, ac yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o safbwynt sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu unrhyw effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau negyddol?

Cwestiwn 10: Yn ogystal, esboniwch sut y gallai fersiwn ddrafft y ddogfen *Canllawiau Statudol ynghylch Darparu Toiledau yng Nghymru: Strategaeth Toiledau Lleol* gael ei llunio neu'i newid er mwyn:

- **sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o safbwynt sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, a**
- **sicrhau na cheir unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o safbwynt sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Beth fydd yn digwydd nesaf

Byddwn yn croesawu sylwadau ar y ddogfen ymgynghori hon tan 4 Ebrill 2018, ac yna byddwn yn ystyried yr holl ymatebion a gafwyd.

Ar ôl ystyried yr ymatebion, bydd cyngor ac argymhellion yn cael eu cyflwyno i Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd er mwyn iddo eu hystyried. Byddant yn cynnwys unrhyw newidiadau a ddylai gael eu gwneud i'r Canllawiau Statudol drafft o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn.

Maes o law byddwn yn cyhoeddi manylion yr ymatebion a gafwyd ac unrhyw ddiwygiadau a gymeradwywyd gan y Gweinidog. Bydd fersiwn derfynol y Canllawiau Statudol yn cael ei chyhoeddi ar y dyddiad y daw gofynion Rhan 8 Deddf lechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 i rym. Bydd y ddogfen a gyhoeddir ar gael i awdurdodau lleol ar y dyddiad hwnnw.

Atodiad A – Rhestr Ddosbarthu'r Ymgynghoriad

Sefydliadau Cynrychioliadol

AGGCC

Cyngor Gofal Cymru

Anabledd Cymru

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau

Dynol

Cyngor Cymru i Bobl Fyddar

CGGC

Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r

Merched

Merched y Wawr

Cymdeithas Siopau Cyfleustra

Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain

Consortiwm Manwerthu Prydain

Cymdeithas Lletygarwch Prydain

Sefydliad Cadw Tafarndai Prydain

Cymdeithas Manwerthwyr Annibynnol
Prydain

British Federation of Small Businesses

Fforwm Gofal Cymru

CBI Cymru

Siambrau Cymru

Cyngor Adnewyddu'r Economi

Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu
Cymru

Ffederasiwn Busnesau Bach – Cymru

Ffederasiwn Bwyd a Diod

Fforwm Busnesau Preifat

GMB

Llywodraethwyr Cymru

Cymdeithas Arlwywyr Genedlaethol
(NCASS)

Cymdeithas y Cyfreithwyr

Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a
Masnachol (PCS)

Llais Disgyblion Cymru

Siambr Fasnach De Cymru

Sefydliad Safonau Masnach Cymru

TUC Cymru

UNITE

UNSAIN

Y Ganolfan Fusnes

Cynghrair Twristiaeth Cymru

Comisiynydd y Gymraeg

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Comisiynydd Plant

Siambr Fasnach Gorllewin Swydd Gaer a

Gogledd Cymru

Welsh Retail Consortium

Age Cymru

RNIB Cymru

RNID - Action on Hearing Loss Cymru

Llamau

Shelter Cymru

Wallich Centre

Changing Places

British Institute of Learning Disabilities

Bladder and Bowel UK

Anabledd Dysgu Cymru

CAIS

Mind

Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

Senedd Pobl Hŷn Cymru

British Liver Trust

Plant yng Nghymru

Sefydliad Iechyd Gwledig

Chwaraeon Cymru

Maindee Unlimited

British Toilet Association

Crohns and Colitis UK

Llywodraeth / Llywodraeth Leol

Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol yng
Nghymru

Penaethiaid Safonau Masnach yng Nghymru

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
(CLILC)
Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd (Cymru)
Rheoleiddio Llywodraeth Leol
Cymdeithas Arlwywyr Awdurdodau Lleol
Y Swyddfa Masnachu Teg
Cymru Gynhaliol
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus
Cymru
Penaethiaid Safonau Masnach yng
Nghymru

Sefydliad Siartredig Safonau Masnach

Cyfoeth Naturiol Cymru
Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
Un Llais Cymru
Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol
Swyddogion Cynllun Datblygu Lleol
Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)

Iechyd

Prif Weithredwyr, Cyfarwyddwyr Meddygol
a Chyfarwyddwyr Nyrsio:

Welsh Physiotherapy Leaders Advisory
Group

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro
Morgannwg
Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Bwrdd Iechyd Hywel Dda
Hywel Dda Health Board

Chartered Society of Physiotherapists

Coleg y Therapyddion Galwedigaethol
Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
Confederasiwn GIG Cymru
Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd y Byrddau
Iechyd Lleol
Coleg Brenhinol y Ffisigwyr

Bwrdd Addysgu Iechyd Powys

Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans
Cymru
Cynghorau Iechyd Cymuned
Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd
Cymru (WHIASU)

Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol
Cymdeithas Feddygol Prydain

Iechyd y Cyhoedd

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd
Swyddogion arweiniol yr awdurdodau lleol o
ran toiledau cyhoeddus

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y
Cyhoedd

Cyfadran Iechyd y Cyhoedd

Canolfannau Cyfun Cymru ar gyfer Iechyd y
Cyhoedd

Trafnidiaeth

Sustrans
Ramblers Cymru
Bwrdd Teithio Llesol
Transport Focus

Cyddfederasiwn Cludiant Teithwyr Cymru
Bus Users Cymru
Cymdeithas Cludiant Cymunedol

Atodiad B – Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Canllawiau Statudol i Awdurdodau Lleol: Strategaethau Toiledau Lleol

Dylech sicrhau bod y ffurflen hon yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn **4 Ebrill 2018** fan bellaf. Dyma'r cyfeiriad ebost ar gyfer ymatebion neu ymholiadau:

LocalToiletsStrategy@gov.wales

Dylid anfon ymatebion drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Polisi a Deddfwriaeth Diogelu Iechyd
Is-adran Iechyd y Cyhoedd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhif ffôn cyswllt ar gyfer ymholiadau: 03000 253240.

Gellir lawrlwytho'r ffurflen hon o dudalen Llywodraeth Cymru ar y we ar gyfer yr ymgynghoriad hwn:

<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/strategaethau-toiledau-lleol-canllawiau-statudol-ar-gyfer-awdurdodau-lleol>

Eich enw:	
Sefydliad (os yn berthnasol):	
Eich cyfeiriad ebost:	
Eich rhif ffôn:	
Eich cyfeiriad:	

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriadau yn cael eu cyhoeddi – ar y rhynggrwyd neu mewn adroddiad. Os yw'n well gennych bod eich ymateb yn aros yn ddiennw, ticiwch yma:

<p>Cwestiwn 1: A yw'r broses ar gyfer ymgynghori ynghylch strategaeth toiledau lleol, ei llunio, ei chyhoeddi a'i hadolygu yn glir?</p>
<p>Cwestiwn 2: A oes digon o ganllawiau ynghylch <u>ystyried y tymor hwy</u> er mwyn canolbwyntio ar ddod o hyd i atebion cynaliadwy?</p>
<p>Cwestiwn 3: A oes digon o ganllawiau ynghylch <u>integreiddio</u> er mwyn ei gwneud yn bosibl i doiledau at ddefnydd y cyhoedd gael eu prif ffrydio mewn polisiau lleol ehangach?</p>
<p>Cwestiwn 4: A oes digon o ganllawiau ynghylch <u>cynnwys pobl</u> er mwyn ei gwneud yn bosibl i anghenion y boblogaeth leol ac ymwelwyr gael eu hasesu'n briodol?</p>
<p>Cwestiwn 5: A oes digon o ganllawiau ynghylch <u>cydweithio</u> er mwyn ei gwneud yn bosibl gweithio mewn partneriaeth ac annog atebion cyffredin?</p>
<p>Cwestiwn 6: A oes digon o ganllawiau ynghylch <u>atal</u> er mwyn galluogi strategaethau toiledau lleol i ganolbwyntio ar atal problemau rhag digwydd neu waethygu?</p>
<p>Cwestiwn 7: A oes unrhyw fylchau sylweddol yn y canllawiau drafft presennol?</p>
<p>Cwestiwn 8: A yw dyluniad y logo cenedlaethol ar gyfer toiledau'n addas i'w ddiben?</p>
<p>Cwestiwn 9: Hoffem gael gwybod beth yw eich barn am effeithiau posibl y ddogfen <i>Canllawiau Statudol ynghylch Darparu Toiledau yng Nghymru: Strategaeth Toiledau Lleol</i> ar y Gymraeg, ac yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o safbwynt sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu unrhyw effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau negyddol?</p>
<p>Cwestiwn 10: Yn ogystal, esboniwch sut y gallai fersiwn ddrafft y ddogfen <i>Canllawiau Statudol ynghylch Darparu Toiledau yng Nghymru: Strategaeth Toiledau Lleol</i> gael ei llunio neu'i newid er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o safbwynt sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael

ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, a

- **sicrhau na cheir unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o safbwynt sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Cwestiwn 11: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle gwag hwn i'w nodi:

Nodwch y materion yma: